The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
E-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

At yr holl Bartïon â Buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 15 Mehefin 2023

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheol 16**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Hysbysiad o Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI)**

Fe wnaeth llythyr Rheol 8 yr Awdurdod Archwilio (ExA), dyddiedig 27 Mawrth 2023 [PD-012], neilltuo amser ar gyfer cynnal ASIau yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Awst 2023. Mae'r llythyr hwn bellach yn cadarnhau y bydd dau ASI yn cael eu cynnal o dan Reol 16 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 ar y dyddiadau canlynol:

**ASI1**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad cyfarfod |
|---|---|---|
| Dydd Llun 7 Awst 2023 | Amser cyfarfod: 12.30pm<br>Amser dechrau: 1.00pm | Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD<br>*Parciwch ym maes parcio canol y ddinas i ymuno â'r bws mini* |

**ASI2**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad cyfarfod |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 8 Awst 2023 | Amser cyfarfod: 9.00am<br>Amser dechrau: 9.30am | Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Parciwch ym maes parcio canol y ddinas i ymuno â'r bws mini* |

Cyflwynodd yr Ymgeisydd leoliadau awgrymedig ar gyfer ASIau erbyn terfyn amser gweithdrefnol A [PDA-002] ac fe'u diweddarwyd erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-040], i ymateb i amryw leoliadau awgrymedig ar gyfer ASIau gan Bartïon â Buddiant. Mae'r ExA yn nodi'r cyflwyniadau gan Bartïon â Buddiant ynglŷn â lleoliadau awgrymedig ar gyfer ASI, gan gynnwys y rhai hynny gan: Gyngor Sir y Fflint [PDA-005]; Peel NRE [PDA-009] a [REP1-073]; Stephens Scown ar ran S ac C Oultram [PDA-006] a [REP1-082]; a Rostons ar ran E C Craven-Smith-Milnes ac A D W Griffith [REP1-079] a R B Jones [REP1-081].

Mae'r ExA wedi ystyried yr holl leoliadau a awgrymwyd gan Bartïon â Buddiant yn ofalus wrth lunio'r amserlen derfynol ar gyfer yr ASI, a amlinellir yn **Atodiad A** y llythyr hwn. Dylid nodi bod yr ExA eisoes wedi cynnal Archwiliadau Safle Digwmni (USI) ar 15 ac 16 Tachwedd 2023 ac y gallai ystyried cynnal rhai ychwanegol, os yw'n ystyried y gellir gweld mwyafrif safle(oedd) o olygfannau cyhoeddus. Mae nodiadau USI1 ac USI2 wedi cael eu cyhoeddi ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol[1], cyfeirnodau [EV-003] ac [EV-004].

**Presenoldeb yn yr ASI**

Cadarnhaodd Amserlen yr Archwiliad yn Atodiad A llythyr Rheol 8 yr ExA [PD-012] fod angen i bartïon gofrestru eu bod am fynychu ASI erbyn Terfyn Amser 3. Os bydd partïon eisiau mynychu o hyd, mae'n bwysig bod unrhyw Bartïon â Buddiant nad ydynt wedi cofrestru i fynychu yn gwneud hynny **erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf 2023 fan bellaf**. Cysylltwch â Thîm yr Achos i gadarnhau eich presenoldeb gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn, a gwnewch yn siŵr fod eich cais yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Enw a chyfeirnod Parti â Buddiant unigryw.
- Cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt ar gyfer y diwrnod.
- Cadarnhau p'un a ydych eisiau bod yn bresennol ar gyfer yr archwiliad cyfan gan ddefnyddio'r bws mini neu adael yn gynnar (gweler yr amserlen yn **Atodiad A** am wybodaeth bellach).
- Cadarnhau p'un a ydych eisiau mynychu wrth Fan Aros (SP) penodol, fel yr amlinellir yn yr amserlen yn Atodiad A isod (gweler hefyd yr amserlen yn **Atodiad A** am wybodaeth bellach).
- Cadarnhau unrhyw ofynion mynediad arbennig.

Os na fydd angen unrhyw ran o'r ASI, bydd y faner ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (gweler troednodyn 1 isod) yn cael ei diweddaru i hysbsu'r partïon am y rhannau na fyddant yn cael eu cynnal. Os bydd yr ASI yn cael ei ganslo, er bod hynny'n annhebygol, byddwn yn ceisio cysylltu â'r mynychwyr o flaen llaw, ond gofynnwn i chi wirio tudalen we'r prosiect yn rheolaidd am unrhyw ddiweddariadau.

[1] Yr URL ar gyfer tudalen we'r prosiect yw: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/

Byddem hefyd yn annog mynychwyr i gofrestru ar gyfer diweddariadau e-bost ar dudalen we'r prosiect.

**Safleoedd ar dir preifat**

Sylwch, os bydd yr ASI yn cael ei gynnal ar dir preifat, fod mynediad i'r tir hwnnw ar gyfer unrhyw Bartïon â Buddiant yn ôl disgresiwn y tirfeddiannwr ac nid yw'r ExA yn gallu gwarantu mynediad na hawliau mynediad i'r Partïon â Buddiant hynny.

**Amserlen ar gyfer yr ASI**

Cyfeiriwch at **Atodiad A** y llythyr hwn ar gyfer amserlen derfynol yr ASI.

**Materion eraill**

Hoffai'r ExA atgoffa'r holl fynychwyr mai diben yr ASI yw gweld y safle a'r amgylchoedd yng nghyd-destun y deunydd ysgrifenedig. Ni ddylid gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig, na thrafod pwyntiau ynglŷn â rhinweddau, yn yr ASI.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir

*Christopher Butler*

**Awdurdod Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

# AMSERLEN YR ASI

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**ASI1**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad cyfarfod |
|---|---|---|
| Dydd Llun 7 Awst 2023 | Amser cyfarfod: 12.30pm<br>Amser dechrau: 1.00pm | Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD<br>*Parciwch ym maes parcio canol y ddinas i ymuno â'r bws mini* |

**ASI2**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad cyfarfod |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 8 Awst 2023 | Amser cyfarfod: 9.00am<br>Amser dechrau: 9.30am | Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD<br>*Parciwch ym maes parcio canol y ddinas i ymuno â'r bws mini* |

Mae'r amserlenni ar gyfer ASI1 ac ASI2 isod. Darllenwch nhw'n ofalus. Bydd yr Ymgeisydd yn sicrhau bod copïau o'r amserlen a map llwybr ar gael ar y diwrnod i gynorthwyo'r rhai sy'n bresennol. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, yr SP yw'r un pwyntiau a ddangosir yn Amserlen Ddrafft yr Ymgeisydd ar gyfer ASI yn Atodiad A – Cynlluniau Ymweliad Safle Arfaethedig [REP1-040].

Sylwch, **nid** yw ASI yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar ar y prosiect na thrafod tystiolaeth. Mae'n gyfle i'r Awdurdod Archwilio (ExA) edrych ar y nodweddion ffisegol y gellir eu gweld ar y safleoedd neu ohonynt. Efallai y bydd yr ExA yn gwahodd cyfranogwyr i amlygu nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

### Ymuno â'r ASI

Bydd ASI1 ac ASI2 yn dechrau'n brydlon ac yn gadael o Westy Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD. Sylwch fod yr amserau dechrau ar gyfer y ddau ASI yn wahanol, gan fod ASI1 ar 7 Awst 2023 yn dechrau am 1:00pm a bod ASI2 ar 8 Awst 2023 yn dechrau am 9.30am. Gofynnir i'r holl fynychwyr ymgynnull yn brydlon erbyn yr amser dechrau oherwydd ni fydd yr ExA yn aros am bartïon nad ydynt yn bresennol bryd hynny. Bydd angen i'r mynychwyr drefnu eu cludiant eu hunain i'r ASI, a bydd rhannau o'r ASI ar droed.

Os bydd unrhyw fynychwyr eisiau gadael yr ASI ar unrhyw adeg, bydd angen iddynt wneud eu trefniadau teithio eu hunain o'r SP lle maen nhw'n gadael yr ASI. Dylai mynychwyr roi gwybod i Dîm yr Achos wrth gadarnhau eu presenoldeb ym mha SP maen nhw'n bwriadu gadael yr ASI. Dylai unrhyw fynychwyr sy'n ymuno â'r ASI wrth SP penodol nodi bod amserau a lleoliadau'r SP yn fras ac y byddant yn gyfrifol am deithio i'r SP hwnnw ac oddi yno eu hunain, yn ogystal â dod o hyd i'r ASI ac ymuno ag ef. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw un sy'n ymuno â'r ASI wrth SP ar hyd y llwybr yn gallu ymuno â'r bws mini i barhau â'r daith, yn enwedig os yw eisoes yn llawn.

Bydd angen i fynychwyr a hoffai ymuno â'r ASI gadarnhau eu presenoldeb **erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf 2023 fan bellaf** trwy:

- anfon neges e-bost at Dîm yr Achos ar: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk; neu
- ffonio Tîm yr Achos ar: 07884 925 827 (Jake Stephens)

Sylwch y bydd angen cerdded mewn rhai lleoliadau a dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas. Bydd yr Ymgeisydd yn darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), os oes angen, gan gynnwys tabardiau llachar (i'w gwisgo dros ben cotiau). Sylwch:

- am resymau diogelwch, ac oherwydd bod lleoedd yn gyfyngedig ar y bws mini a ddefnyddir ar gyfer yr ASI, dim ond y rhai hynny sydd wedi rhoi gwybod i'r ExA eu bod am fynychu'r ASI erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf 2023 fydd yn gallu mynychu.
- SP M (Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) Stanlow): dim ond y rhai hynny ar y bws mini a ganiateir ar y safle a bydd yr holl ymwelwyr yn aros yn y bws mini ar gyfer yr ymweliad safle. Ni fydd unrhyw bartïon eraill yn gallu ymuno â'r rhan hon o'r ASI yn SP M.

## Iechyd a diogelwch

Bydd yr Ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth iechyd a diogelwch, os bydd angen, ar ddechrau'r ASI. Bydd hefyd yn darparu tabardiau llachar (i'w gwisgo dros ben cotiau) a PPE arall, os oes angen. Fodd bynnag, er mwyn i'r Ymgeisydd ddarparu digon o PPE, pan fydd ei angen, mae'n rhaid i'r rhai y mae arnynt angen PPE gadarnhau y byddant yn bresennol **erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf 2023**.

## Trefniadau cludiant

Mae'r Ymgeisydd yn darparu bws mini ar gyfer y rhai sy'n mynychu pob SP sy'n rhan o'r ASI. Fodd bynnag, bydd angen cerdded ychydig. Am resymau logisteg a diogelwch, gallai nifer y lleoedd ar y cludiant a ddarperir gan yr Ymgeisydd fod yn gyfyngedig.

## Safleoedd ar dir preifat

Mae mynediad i dir preifat trwy ganiatâd y sawl sy'n ei reoli bob amser; gallai tirfeddianwyr wrthod caniatáu i rai pobl sydd yng nghwmni'r ExA fynd ar eu tir. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd yr ExA yn penderfynu p'un ai symud ymlaen â'r rhan honno o'r ASI ai peidio.

**Lluniaeth**

Sylwch na fydd lluniaeth yn cael ei ddarparu. Byddwn yn aros i gael cinio yn ystod ASI2 (8 Awst 2023); ond disgwylir i'r holl fynychwyr ddarparu eu cinio eu hunain.

**Canslo**

Os bydd yr ASI yn cael ei ganslo, er bod hynny'n annhebygol, byddwn yn ceisio cysylltu â'r mynychwyr o flaen llaw, ond gofynnwn i chi wirio tudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio yn rheolaidd ar gyfer unrhyw ddiweddariadau. Byddem hefyd yn annog mynychwyr i gofrestru ar gyfer diweddariadau e-bost ar dudalen we'r prosiect.

**COVID-19 – profion llif unffordd a rhagofalon eraill**

Gallai'r mynychwyr ddymuno ystyried gwneud prawf llif unffordd[2] cyn cyrraedd yr ASI.

Os ydych yn profi unrhyw symptomau COVID-19 neu'n teimlo'n sâl yn gyffredinol, peidiwch â mynychu.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu â Thîm yr Achos ar ddiwrnod yr ASI ar 0303 444 5000. Er mwyn sicrhau bod yr ASI yn mynd rhagddo'n ddidrafferth, dylai'r mynychwyr ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y diwrnod; rhoi gwybod i Dîm yr Achos os bydd unrhyw newidiadau o ran presenoldeb; a sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol o unrhyw ofynion mynediad arbennig ar gyfer unrhyw gyfranogwyr.

---

[2] https://www.gov.uk/order-coronavirus-rapid-lateral-flow-tests

# ASI 1 – Dydd Llun 7 Awst 2023 – AMSERLEN

Bydd ASI1 yn dechrau'n brydlon am 1:00pm, fel y nodwyd uchod, a byddwn yn ceisio cadw at yr amseriadau mor agos â phosibl, er y gallai ffactorau allanol fel y tywydd a thraffig effeithio arnynt ychydig. Bydd yr ExA yn terfynu ASI1 am 5:30pm, neu'n gynt os ymwelwyd â'r holl safleoedd perthnasol.

| | |
|---|---|
| **12:30pm** | **Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD** |
| | 1. Cofrestru'r holl fynychwyr sy'n teithio ar y bws mini. |
| **12:50pm** | **Sesiwn wybodaeth, os oes angen** |
| | 1. Croeso a gwybodaeth gan yr ExA, os oes angen.<br><br>2. Gwybodaeth iechyd a diogelwch gan yr Ymgeisydd, os oes angen.<br><br>Bydd angen i'r rhai sy'n mynychu gydymffurfio ag unrhyw geisiadau rhesymol, yn enwedig o ran Iechyd a Diogelwch, yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y ddogfen hon. |
| **1:00pm** | **Dechrau'r ASI** |
| 1:15pm – 2:00pm | **1. Man Aros (SP) I – Safle Croesfan Afon Dyfrdwy**<br>Safle hawliau tramwy cyhoeddus Deeside Lane (309/1/30) a Llwybr Ceffylau 8 (309/8/10), fel y gofynnwyd yn [PDA-005].<br><br>Deeside Lane, Caer, CH1 6BP.<br><br>Parcio yn Fferm Wood a cherdded i lawr i'r afon i weld y llwybr arfaethedig. |
| 2:15pm – 2.30pm | **2. SP J - Station Road, Mollington**<br><br>Neuadd Five Villages, CH1 6NT.<br><br>Parcio yn Neuadd Five Villages. |
| 2:45pm – 3:00pm | **3. SP K – Safle Gorsaf Falfiau Bloc (BVS) Rock Bank/ Croesfan Camlas Undeb Swydd Amwythig**<br><br>Chorlton Lane, Caer CH2 4DA.<br><br>Parcio ar y fynedfa gae ar Chorlton Lane. |

| | | |
|---|---|---|
| 3:30pm – 4:00pm | **4.** | **SP L –** Safle AGI Ince;<br><br>Buddiannau tir CF Fertiliser ac Encirc, Grinsome Road, Caer CH2 4LB a safle buddiant tir Peel, fel y gofynnwyd yn [PDA-009].<br><br>Parcio oddi ar Grinsome Road a cherdded i'r safle i weld lleoliad arfaethedig yr AGI. |
| 4:30pm – 5:00pm | **5.** | **SP M –** Safle AGI Stanlow<br><br>Giât 6, Cyfadeilad Gweithgynhyrchu Stanlow, Pool Lane, Ellesmere Port, Swydd Gaer, CH65 4HB.<br><br>Codi tywysydd ESSAR yn CF Fertilisers UK Ltd, Ince CH2 4LB a fydd yn aros ar y bws mini ar gyfer taith o'r safleoedd yn y cyfadeilad. Bydd y mynychwyr yn aros ar y bws mini. Ni fydd partïon nad ydynt ar y bws mini yn gallu mynychu'r rhan hon o'r ASI (Gweler y wybodaeth uchod ynglŷn â mynychu'r rhan hon o'r ASI). |
| 5:30pm | **6.** | **SP O – Dychwelyd i Westy Crowne Plaza**<br><br>Trinity Street, Caer, CH1 2BD. |
| **5:30pm** | **7.** | **Diwedd ASI1** |

## ASI2 Dydd Mawrth 8 Awst 2023 – AMSERLEN

Bydd ASI2 yn dechrau'n brydlon am 9:30am, fel y nodwyd uchod, a byddwn yn ceisio cadw at yr amseriadau mor agos â phosibl, er y gallai ffactorau allanol fel y tywydd a thraffig effeithio arnynt ychydig. Bydd yr ExA yn terfynu ASI2 am 5:00pm, neu'n gynt os ymwelwyd â'r holl safleoedd perthnasol.

| | |
|---|---|
| **9:00am** | **Gwesty Crowne Plaza, Trinity Street, Caer, CH1 2BD** |
| | 1. Cofrestru'r holl fynychwyr sy'n teithio ar y bws mini. |
| **9:20am** | **Sesiwn wybodaeth, os oes angen** |
| | 1. Croeso a gwybodaeth gan yr ExA, os oes angen.<br>2. Gwybodaeth iechyd a diogelwch gan yr Ymgeisydd, os oes angen.<br><br>Bydd angen i'r rhai sy'n mynychu gydymffurfio ag unrhyw geisiadau rhesymol, yn enwedig o ran Iechyd a Diogelwch, yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y ddogfen hon. |
| **9:30am** | **Dechrau'r ASI** |
| 10:15am – 10:45am | **1. Man Aros (SP) A – Safle BVS Cornist Lane**<br><br>Cornist Lane, y Fflint CH6 5RA.<br><br>Parcio ar y ffordd a cherdded i fyny'r bryn i weld lleoliad arfaethedig y BVS ar Biblinell Cei Connah i'r Parlwr Du. |
| 11:00am – 11.30am | **2. SP B – Safle AGI Northop Hall**<br><br>Chester Road, Northop Hall, yr Wyddgrug CH7 6AZ.<br><br>Parcio yn Neuadd Highfield a cherdded ar draws y ffordd i weld lleoliad arfaethedig yr AGI. |
| 11:45am – 12:30pm | **3. SP C – Safle Croesfan Nant Alltami a Thir yn Magazine Lane, Ewloe.**<br><br>Magazine Lane/Pinfold Lane, Northop Hall, yr Wyddgrug CH5 3FA.<br><br>Safle cymryd tir yn barhaol ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol [Gwaith Rhif 57K] fel y dangosir yn y Cynlluniau Gwaith [AS-012], fel y gofynnwyd yn [PDA-006]. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Parcio ar gornel Magazine Lane a Picton Lane a cherdded i'r nant i weld y llwybr arfaethedig. |
| 12:45pm – 1:45pm | **4.** | **SP D – Cinio**<br><br>St. David's Park, CH5 3DT<br><br>Gollwng am 12:45 a chasglu am 1:45pm. |
| 2:00pm – 2:30pm | **5.** | **SP E – Fferm Newbridge**<br><br>Safle cyfadeilad adeiladu [Rhifau Gwaith 41D a 41A] fel y dangosir yn y Cynlluniau Gwaith [AS-012], fel y gofynnwyd yn [PDA-006].<br><br>Parcio yng Ngorsaf Betrol Oil4Wales, Fferm Holywell, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BS. |
| 2:45pm - 3:15pm | **6.** | **SP F – Safle Croesfan Church Lane**<br><br>Church Lane, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BF<br><br>Parcio yn Eglwys yr Ysbryd Glân a cherdded i Church Lane i weld y llwybr arfaethedig. |
| 3:30pm – 3:45pm | **7.** | **SP G – Maes Chwarae Cymunedol Penarlâg**<br><br>Vickers Close, CH5 3HS<br><br>Parcio ar Vickers Close, Penarlâg. |
| 4:00pm – 4:30pm | **8.** | **SP H – Safle Croesfan Chester Road (gan gynnwys Safle 2 Sisters Food Group)**<br><br>Glendale Ave, Sandycroft, East Side, Glannau Dyfrdwy CH5 2QP<br><br>Parcio ym Maes Parcio 2 Sisters a cherdded i Chester Road i weld y llwybr arfaethedig. |
| 5:00pm | **9.** | **SP O – Dychwelyd i Westy Crowne Plaza**<br><br>Trinity Street, Caer, CH1 2BD. |
| **5:00pm** | **10.** | **Diwedd ASI2** |